Gwella busnes drwy
well gofal plant

# Canllawiau Gofal Plant i Gyflogwyr



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Chwarae Teg Fairplay



*Rhodri Morgan AM*
*Prif Weinidog*
*Llywodraeth Cynulliad Cymru*

Mae'r canllawiau hyn yn adnodd newydd gwerthfawr fydd yn galluogi cyflogwyr ym mhob rhan o Gymru i sicrhau gwir fuddion busnes drwy sicrhau darpariaeth gofal plant effeithlon ar gyfer eu staff.

# Rhagair

Mae gofal plant yn rhan hanfodol o agenda economaidd Llywodraeth y Cynulliad oherwydd ei fod yn datgloi cyfraniad enfawr pobl gyda sgiliau a chyfrifoldebau rhiant a fedrai fel arall gael eu heithrio o'r gweithlu.

Mae busnesau llwyddiannus yn cydnabod fod angen i gyflogedigion gydbwyso eu bywydau gwaith gyda'u cyfrifoldebau teulu. Y cyflogwyr sy'n cymryd camau i gefnogi staff i sicrhau'r cydbwysedd hwn yw'r rhai fydd yn recriwtio a chadw'r bobl o'r ansawdd uchaf, gan sicrhau eu teyrngarwch, cymhelliant ac effeithlonrwydd.

Mae Cynllun Gweithredu Gofal Plant Llywodraeth y Cynulliad a gyhoeddwyd ym mis Mai 2002 yn cynnwys amrediad eang o fesurau fydd yn helpu cyflogwyr i gefnogi rhieni i gyrchu'r gofal y maent eu hangen ar gyfer eu plant. Dyma sut y medrant gael eu rhyddhau i chwarae rhan lawn a chynhyrchiol ym mywyd busnesau a sefydliadau eraill.

Drwy gymorth ariannol ac anogaeth weithgar partneriaethau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, rydym yn cynyddu'n sylweddol y rhwydwaith o ofal plant a darpariaeth allan o'r ysgol ansawdd uchel sydd ar gael am gost rhesymol yng Nghymru.

Gwnaed cynnydd mawr mewn blynyddoedd diweddar drwy ymdrechion lleol Partneriaethau Gofal Plant a chyfraniad Clybiau Plant Cymru, y corff a sefydlwyd gan y Cynulliad yn 2001 i gefnogi clybiau allan o ysgol, yn genedlaethol.

Fel sail i hyn i gyd fu arbenigedd ac ymrwymiad Chwarae Teg, a fu'n hyrwyddo sefyllfa economaidd menywod yng Nghymru gydag egni ac angerdd dros y ddegawd diwethaf.

Diolch i hyn, mae miloedd yn fwy o fenywod wedi medru ymarfer eu dewis i ddychwelyd i weithio ar ôl cael eu plant a rwy'n edrych ymlaen i'r un cyfle gael ei roi i lawer mwy dros y blynyddoedd i ddod.

Ein bwriad yw  y dylai cefnogi gofal plant i staff fod yn rhwydd, syml a deniadol i gyflogwyr. Yn ychwanegol, dymunwn i gyflogwyr gael mynediad i'r math o ddarpariaeth sydd fwyaf addas iddynt hwy a'u staff, bydded hynny mewn créche ar y safle, partneriaeth gyda darparydd lleol, cynllun taleb gofal plant neu ddull arall.

Mae sbectrwm eang o gefnogaeth ar gael ac mae cyrff fel Chwarae Teg yno i helpu sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i wneud penderfyniadau gwybodus am y llwybr mwyaf addas iddynt hwy.

Hoffwn i Gymru fod yn batrwm i Ewrop yn y maes hwn. Dylai hyn ddigwydd, nid oherwydd fod deddfwriaeth yn gorfodi hynny, ond oherwydd y medrwn oll weld manteision symud ymlaen tuag at economi gryfach a chymdeithas iachach.

Byddwn yn cymeradwyo'r ddogfen hon i gyflogwyr fel arf werthfawr i gyrraedd y nod hon.



**Rhodri Morgan AC**
**Prif Weinidog**



*Ruth Marks,*
*Prif Weithredydd*
*Chwarae Teg*

Dynododd ein hymchwil ddiweddar 'Rôl Menywod yn y Gweithlu yng Nghymru', a gomisiynwyd i ddathlu ein 10fed Pen-blwydd, fod gofal plant yn dal i fod yn un o'r prif rwystrau sy'n atal menywod rhag dychwelyd i'r gwaith neu barhau mewn cyflogaeth.

# Cyflwyniad

Daeth cydbwyso bywyd a gwaith yn rhan anatod o fywydau llawer o bobl ac yn gynyddol mae cyflogwyr yn datblygu arferion gweithio hyblyg, gan wneud yr amgylchedd gwaith yn un sy'n adlewyrchu gofynion bywyd modern.

Ar hyn o bryd mae menywod yn ffurfio ychydig dros hanner y gweithlu yng Nghymru, a gyda mwy o gyfleoedd ar gael, cyfreithiau cyflogaeth newydd a'r ymgyrch am ffyniant economaidd, mae mwy o fenywod yn dychwelyd i'r gwaith, yn edrych am gyflogaeth a dilyniant gyrfa nag erioed o'r blaen. Mae menywod felly yn dod yn adnodd cynyddol bwysig yn y farchnad lafur. Gan roi ystyriaeth i hyn a'r ffaith fod gofal plant yn dal i fod yn ystyriaeth i ddynion a menywod, ni fu'r angen am ofal plant o safon uchel ac sy'n fforddiadwy erioed yn fwy perthnasol.

Mae darpariaeth gofal plant gyfredol yng Nghymru yn anghyson. Mae gwahaniaethau rhanbarthol; mae gan rai ardaloedd lefelau uchel o ofal plant ansawdd uchel ar gael, tra nad oes bron unrhyw ddarpariaeth o gwbl mewn lleoedd eraill, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig. Er fod amrywiaeth o ddarpariaeth ar gael, nid yw bob amser yn rhwydd cael mynediad ato. Mae nifer y gofalwyr plant wedi gostwng yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf, ac mae hefyd reoliadau a safonau newydd sydd angen eu cyflenwi.

Gyda chyflwyniad Cyfraith Cyflogaeth newydd, mae cyflogwyr yn dod yn fwy ymwybodol o'r angen i addasu eu harferion gwaith i weddu i anghenion rhieni. Gall llawer fod yn meddwl am y ffyrdd gorau i drafod anghenion gofal plant y sawl a gyflogant a medrant fod angen gwybodaeth bellach er mwyn sicrhau'r opsiynau mwyaf addas sydd ar gael. Yn yr un modd gall rhieni hefyd fod angen mwy o wybodaeth parthed eu dewis gofal plant eu hunain a chydbwyso gwaith a bywyd teulu.

Mae'r ddogfen hon yn rhan o gyfres o dri chyhoeddiad ar ofal plant, y ddau arall yw Treth a Gofal Plant a Cyflogydd o Ddewis. Gobeithiwn y bydd y canllawiau yn ddefnyddiol i gyflogwyr a rhieni fel ei gilydd ac y bydd yr enghreifftiau o arfer da yn gymorth i ddatblygu ymdriniaeth cyson a chadarnhaol o ofal plant yng Nghymru.

**Ruth Marks**
**Prif Weithredydd**
**Chwarae Teg**

**Chwarae Teg**
**Llys yr Angor**
**Heol Keen**
**Caerdydd**
**CF24 5JW**

Mae cefnogi gofal plant ansawdd uchel a sicrhau budd gorau busnes yn ddwy ochr o'r un geiniog ar gyfer cyflogwyr ym mron bob sector.

# Gofal Plant yn Cryfhau Busnes!



Mae'r achos busnes dros i sefydliadau helpu staff gael mynediad at ofal plant da am bris rhesymol wedi'i seilio'n gadarn ar y ddealltwriaeth bod gallu cystadleuol ac effeithlonrwydd corfforaethol a yn deillio o recriwtio, hyfforddi a chadw'r bobl sy'n perfformio orau.

Dangoswyd fod polisïau ystyriol i'r teulu yn gwneud cyflogwyr yn fwy deniadol i weithwyr safon uchel, ac felly'n rhoi mantais naturiol yn y farchnad i'r sefydliadau hynny.

Mae'r corff diwydiant, CBI, yn cydnabod effaith fasnachol gadarnhaol mesurau hyblyg a chadarnhaol i helpu staff i ateb ymrwymiadau teulu.

Mewn gwirionedd amcangyfrifant fod mwy na dwy ran o dair o gyflogwyr Prydain eisoes yn cynnig o leiaf un opsiwn gwaith am resymau teuluol yn fwy na'r goblygiadau statudol.

Dylai sefydliadau sy'n cystadlu yn y farchnad lafur wybod fod 40% o'r gweithlu yn rhieni plant o oedran ysgol neu blant dan oedran ysgol.

Mae hyn yn golygu fod gofal plant yn debygol o fod yn ystyriaeth i gyfran fawr o'u staff presennol neu ddarpar staff.



Mae'r ddadl dros gefnogi gofal plant a darpariaeth allan-o'r-ysgol yn seiliedig ar resymeg busnes gadarn.

Dynododd ymchwil ddiweddar yng Nghymru mai diffyg gofal plant fforddiadwy oedd y rhwystr mwyaf yn wynebu menywod sy'n ystyried dychwelyd i'r gwaith.

- Gwell recriwtio a chadw staff
- Llai o absenoldeb
- Gwell cynhyrchiant a pherfformiad
- Gwell budd o hyfforddiant
- Lleihau effaith rheoliadau gweithio hyblyg newydd

## Recriwtio

Mae cynnig cefnogaeth gyda gofal plant a darpariaeth allan-o'r-ysgol yn syth yn ehangu'r gronfa o staff posibl sydd ar gael i fusnes oherwydd ei fod yn cael gwared o'r prif rwystr sy'n atal llawer o famau rhag dychwelyd i'r gwaith.

Bydd darparu'r gefnogaeth gywir yn tueddu i wneud y sefydliad yn gyflogydd o ddewis yn yr ardal hwnnw. Mae'n gwneud synnwyr ei bod yn debygol mae'r bobl sydd wedi cael yr hyfforddiant a'r addysg orau sydd fwy tebygol o fod yn fwyaf detholgar pan ddaw i ddewis cyflogydd. Fel canlyniad bydd polisïau gyda ffocws teulu fel arfer yn denu safon uwch o bersonél.

## Cadw Staff

Mae cefnogaeth gofal plant hyd yn



oed yn bwysicach ym maes cadw staff gan y gall cost recriwtio pobl yn lle rhai sy'n gadael fod yn faich sylweddol ar fusnes.

Amcangyfrifodd y Gymdeithas Ddiwydiannol yn y flwyddyn 2000 ei bod yn costio tua £7,000 i benodi rhywun i gymryd lle person ar gyflog o £15,000, pan roddir ystyriaeth i'r ymyriad uniongyrchol ar weithredu, hysbysebu, cyfweld, dethol a chynefino sylfaenol. Mae'r gost yn codi'n sylweddol pan roddir ystyriaeth i'r holl ffactor o ailhyfforddi a cholli cynhyrchiant. Er enghraifft, y llynedd amcangyfrifodd gwmni ymgynghori blaenllaw yn arbenigo mewn sgiliau cyfrifiadurol y byddai'n costio



£39,000 i benodi rhywun yn lle rhaglennydd ar £35,000 y flwyddyn ac y byddai'n costio £57,000 i benodi rhywun yn lle rheolydd TG ar gyflog o £50,000.

Ar y llaw arall arbedodd un o brif fanciau'r stryd fawr symiau enfawr o arian drwy fuddsoddi mewn gofal plant oherwydd i'r canran o staff a ddychwelodd ar ôl seibiant mamolaeth godi o 30% i 75%.

## Llai o Absenoldeb

Yn ôl y CBI mae absenoldeb yn costio bron £11 biliwn y flwyddyn i ddiwydiant. Credir bod cyfran anhysbys ond sylweddol o hyn yn gysylltiedig ag anawsterau gofal plant, lle gorfodir rhieni i gymryd amser o'r gwaith pan fo gofal plant anffurfiol neu ddibynadwy ddim ar gael.

Bydd cefnogi staff wrth sicrhau gofal plant rheolaidd a dibynadwy neu ddarpariaeth allan-o'r-ysgol yn gostwng pwysau ar rieni i gymryd absenoldeb o'r fath, ac yn lleihau'n fawr yr ymyriad i'r gweithle.

Yn ychwanegol mae'r tawelwch meddwl a ddaw yn sgil gofal plant o ansawdd uchel yn debygol o ostwng straen a salwch sy'n gysylltiedig a straen, a gaiff ei feio gan y CBI am 13.4 miliwn diwrnod o absenoldeb bob blwyddyn.

## Gwella Cynhyrchiant a Pherfformiad

Mae cynorthwyo staff i ganfod gofal ansawdd uchel yn debygol o ostwng pryder, a fyddai fel arall yn llesteirio eu perfformiad a'u galluogi i ganolbwyntio'n fwy effeithlon ar y gwaith dan sylw.

Gall ymyriadau achosir gan ofal plant annigonol, arwain at waith ansawdd gwael gan effeithio ar y cynnyrch neu wasanaeth, ac yn y pen draw ar berthynas gyda chwsmeriaid.

Ar y llaw arall, mae'r ewyllys da a gynhyrchir gan arferion cyflogaeth ystyriol i'r teulu yn tueddu i godi ysbryd a chymhelliant ymysg staff, gan arwain at fwy o ymrwymiad a pharodrwydd i fod yn hyblyg, ac i gydweithio pan fo'r llwyth gwaith yn cynyddu.

## Gwell Canlyniad o Hyfforddiant

Mae buddsoddi mewn sgiliau pobl yn ymrwymiad mor bwysig gan gyflogydd ag yw unrhyw fuddsoddiad mewn cyfarpar ac offer.

# Gofal Plant yn Cryfhau Busnes!



Mae sicrhau dychweliad ar y buddsoddiad hwnnw yn dibynnu ar barodrwydd yr unigolyn i ddefnyddio ei sgiliau newydd yn effeithlon yn y gweithle ac aros gyda'r sefydliad yn ddigon hir i gynhyrchu'r elw a fydd yn ad-dalu cost yr hyfforddiant.

Y mae'r staff hynny lle mae'r cyflogwyr yn eu galluogi i sicrhau gofal plant sefydlog ac ansawdd da yn annhebygol o fod eisiau symud ac ymyrryd ar y trefniadau hyn.

O ganlyniad maent yn debygol o aros yn hwy gyda'r busnes gan alluogi'r cyflogydd i gael budd parhaol o'r buddsoddiad mewn sgiliau.

## Lleihau effaith deddfwriaeth hyblygrwydd

Ers mis Ebrill 2003 bu gan staff gyda phlant dan chwech oed – neu blant anabl dan 18 – hawl i wneud cais a derbyn ystyriaeth ddifrifol am drefniadau gweithio hyblyg i gydweddu â'u cyfrifoldebau teuluol. Amcangyfrifir y bydd 3.7 miliwn o weithwyr yn y Deyrnas Gyfunol yn gymwys.

Er bod hyn yn symudiad cadarnhaol ynddo'i hunan, ac yn debygol o ddod â 60,000 o famau eraill yn ôl i'r gweithlu, mae ganddo'r potensial i ddodi pwysau newydd ar rai busnesau sydd heb bolisi ystyriol i'r teulu.

Bydd cyflogwyr doeth yn sylweddoli bod diffyg gofal plant fforddiadwy yn arwain at drefniadau darniog all olygu ceisiadau cynyddol am weithio hyblyg, a seibiant rhieni neu seibiant argyfwng.

Er bod gan y cyflogydd yr hawl i wrthod ceisiadau os oes ganddo/ganddi seiliau rhesymol, mae'r Llywodraeth yn dal i amcangyfrif y gall 4,000 o achosion ddiweddu mewn tribiwnlysoedd cyflogaeth o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth.

Y mae cael polisïau rhagweithiol i helpu rhieni i gynllunio eu gofal plant yn fwy effeithlon yn llawer gwell deniadol i unrhyw gyflogydd.

## Synnwyr Busnes Perffaith!

Y mae'n amlwg fod galw am fwy o gefnogaeth wrth ddarparu gofal plant a darpariaeth allan o'r ysgol. Dengys ymchwil fod 75% o rieni yn credu fod y ddarpariaeth bresennol yn annigonol.

Er bod gan cyfran uchel o gyflogwyr rhai polisïau ystyriol i'r teulu, dim ond 10% sy'n cynnig rhyw fath o ddarpariaeth gofal plant ar hyn o bryd.

Byddai symud yn gyflym i fynd i'r afael â'r broblem hon yn holl fanteisiol ac yn osgoi'r problemau a amlinellir uchod a hefyd yn rhoi cyfle i gyflogwyr i gael mantais dros gystadleuwyr a chryfhau eu busnesau.

Gofal Plant yn Cryfhau Busnes!

## Rhoi gofal plant ar frig yr agenda



*Yr ystafell babanod ym meithrinfa Peter Pan.*

**Ar safle Ysbyty Glan Clwyd yn y Rhyl, bu meithrinfa Peter Pan yn darparu gofal plant ar gyfer anghenion 5,000 o staff yr ysbyty ers 1998.**

Gyda lle ar gyfer hyd at 130 o blant, mae'r cyfleuster pwrpasol yn darparu gofal dydd i fabanod a phlant ifanc, yn ogystal â cynlluniau clwb allan-o'r-ysgol a chwarae gwyliau ar gyfer plant hyd at wyth oed.

Esboniodd Pam Luckock, Rheolydd Cydraddoldeb Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru, Conwy a Sir Ddinbych: "Roedd gennym rhyw fath o gyfleuster meithrinfa yn y gorffennol ond nid oedd wedi ei leoli ar brif safle'r ysbyty ac nid oedd yr adeilad yn ddelfrydol.

"Fe wnaethom benderfynu adeiladu cyfleuster o'r radd flaenaf ar y safle fel y medrai ein staff fod yn sicr eu bod yn cael y gofal gorau i'w plant."

Caiff y feithrinfa sydd ar agor rhwng 7yb hyd 7yp pob diwrnod gwaith ei rhedeg yn breifat gan ddarparwyr gofal plant profiadol ac mae'r cyfleusterau diweddaraf yno, yn cynnwys ardal chwarae cwrt dan do.

"Mae llawer o'r staff a gyflogir gan yr Ymddiriedolaeth yn gweithio gwahanol batrymau shifft a rhaid i'r gofal plant fod yn ddigon hyblyg i gyd-fynd a'r ymrwymiadau gwaith hyn", meddai Pam.

Mae'r cyfleuster yn arbennig o fanteisiol i staff sy'n byw ar safle'r ysbyty dwys gyda'u teuluoedd am gyfnodau byr, gan ei fod yn eu galluogi i ateb gofynion trwm eu swyddi heb bryderu am ofal plant.

"Yr ydym yn cynnal archwiliad ar hyn o bryd o sut yr ydym yn ateb anghenion staff yn nhermau darparu cyfleusterau gofal plant, ac a yw'n ddigonol. Rydym hefyd yn edrych ar ffyrdd o weithredu fframwaith cydbwysedd gwaith bywyd i alluogi'r holl staff i weithio'n fwy hyblyg," meddai Pam.

"Dylai cyfrifoldebau gofal plant fod yn anatod i gynllun busnes unrhyw gyflogydd. Nid yn unig bydd staff presennol dan lai o straen pan wyddant fod eu plant yn derbyn gofal da, ond mae'r feithrinfa hefyd yn ased ardderchog pan ddaw i recriwtio staff newydd".





## Dewis Darpariaeth Unigol



*Mae Caroline wedi canfod darpariaeth gofal plant sy'n gweddu i'w hanghenion.*

**Mae Caroline Challoner, mam i bedwar o blant o Gaerdydd, wedi bod mewn swyddi rheoli cyhyd ag y gall gofio.**

Fodd bynnag mae wedi medru cydbwyso gyrfa brysur gyda'r ymrwymiadau teuluol sylweddol hyn diolch i oriau gweithio hyblyg a gweithio oddi cartref a ganiateir gan ei chyflogwyr a chynorthwy-ydd gofal plant.

Dros y blynyddoedd, mae Caroline, sy'n 42 mlwydd oed, sy'n Bennaeth Marchnata Cyngor Cenedlaethol – ELWa wedi ceisio sawl dull o ofal i'w phlant sy'n awr rhwng saith ac un ar ddeg oed.

"Pan ddychwelais gyntaf i'r gwaith, fe wnes ddechrau defnyddio meithrinfa ddydd ond cefais nad oedd eu horiau yn addas i fy ymrwymiadau gwaith," esboniodd.

"Mae cyflogi gofalydd plant yn fwy hyblyg ac yn gweddu fy anghenion yn llawer gwell."

Gyda'i holl blant yn awr mewn addysg llawn amser, mae gofalydd plant Caroline yn mynd i'w nôl o'r ysgol ac yn edrych ar eu hôl nes fod Caroline neu Owain ei gŵr yn dychwelyd o'r gwaith.

"Mae dod o hyd i ofalydd plant dibynadwy yn amhrisiadwy," meddai Caroline. "Mae'n ei gwneud yn llawer haws i mi ateb gofynion fy swydd gan wybod fod fy mhlant yn cael gofal ac yn hapus."

Mae ei gallu i weithio'n hyblyg wedi gwneud swydd Caroline fel rhiant yn llawer rhwyddach, gan ei galluogi i addasu ei horiau gwaith i weddu i wyliau ysgol, dyddiau chwaraeon, apwyntiadau meddyg a galwadau eraill.

Ychwanegodd: "Gyda mwy a mwy o fenywod mewn swyddi proffil uchel, mae'n hanfodol fod gan gyflogwyr agwedd fwy hyblyg at oriau gwaith a phosibiliadau gweithio o gartref. Mae ffordd bell i fynd o hyd cyn y caiff y gwaith o fod yn fam a gweithio'n llawn-amser ei wneud mor rhwydd ag y gall fod."

# Sylwadau Cyflogwyr

*"Gall fod yn ddrud iawn i gael pobl i gymryd lle rhai sy'n methu dychwelyd i'r gwaith oherwydd diffyg gofal plant fforddiadwy ac i hyfforddi staff newydd, felly mae'r cyfleuster hwn yn helpu i gadw ein staff gwerthfawr a medrus." –* ***National Britannia***

*"Byddai mwy o gyfleusterau fel hyn yn galluogi mwy o fenywod i ddilyn eu gyrfaoedd heb boeni os yw eu plant yn derbyn gofal iawn." –* ***Johnsey Estates***

*"Nid yn unig bod aelodau presennol o staff dan lai o straen pan wyddant fod eu plant yn cael gofal da ond mae'r feithrinfa yn gaffaeliad ardderchog pan ddaw i recriwtio staff newydd." –* ***Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru, Conwy a Sir Ddinbych***

*"Bu i ni astudio'r hyn oedd yn rhwystro pobl rhag gwneud cais am y swyddi hyn a chanfod fod diffyg mynediad i ofal plant fforddiadwy a hyblyg yn uchel ar y rhestr." –* ***Heddlu Gogledd Cymru***

*"Pe na byddem yn darparu gofal plant digonol ni fyddai gennym y staff medrus i gynyddu ein cynhyrchiant." –* ***Aykroyd and Sons***

*"Mae awyrgylch croesawgar hyfryd yn y feithrinfa gyda phob plentyn yn cael cyfle i wireddu eu llawn botensial." –* ***Coleg Penybont.***





## Iaith yn flaenoriaeth allweddol



*Esyllt Morgan Williams gyda'i mab Llew.*

**Pan ddechreuodd Esyllt Morgan Williams a'i gŵr Gareth chwilio am ofal plant ar gyfer Llew eu mab, un o'u prif flaenoriaethau oedd canfod meithrinfa ddydd lle mai'r Gymraeg oedd yr iaith gyntaf.**

Mae Esyllt, 33, yn byw yng Nghaerdydd ac yn gweithio fel cynorthwy-ydd personol i Ruth Marks, Prif Weithredydd Chwarae Teg. Dychwelodd i'w gwaith pan oedd Llew yn naw mis oed, yn dilyn seibiant mamolaeth.

Esboniodd: "Roeddwn eisiau dod yn ôl yn llawn amser ond roedd yn rhaid i mi'n gyntaf ganfod gofal dydd addas ar gyfer Llew lle byddai'n medru clywed y Gymraeg bob dydd a lle byddwn yn hyderus y byddai'n hapus".

Ei dewis oedd meithrinfa ddydd Miri Mawr yn Ystum Taf, tua tair milltir o'r swyddfa, ar ôl cael cyfle i edrych o amgylch y cyfleusterau a chwrdd a'r staff.

"Roeddwn yn hapus iawn gyda'r hyn oedd ganddynt i'w gynnig a oedd yn cynnwys offer newydd sbon a gardd fawr. Roedd y pris o £30 y dydd yn gystadleuol iawn ar gyfer yr ardal hon."

Gyda Llew wedi setlo yn y feithrinfa, mae Esyllt yn ei chanfod yn llawer haws i fynd ymlaen gyda'i swydd gan wybod ei fod yn ddiogel ac yn cael gofal da. Esboniodd, "Mae fy ngŵr yn teithio llawer gyda'i swydd fel fferyllydd symudol ac felly fi sy'n gwneud yn siwr bod Llew yn mynd i'r feithrinfa cyn gwaith a'i nôl ar ddiwedd y dydd.

Nid oes gan y naill na'r llall ohonom deulu yn byw yng Nghaerdydd i helpu gyda gofal plant ac felly, heb y feithrinfa, fyddwn i ddim wedi medru dychwelyd i'r gwaith."

Mae Esyllt yn frwdfrydig am faint o gefnogaeth a gafodd gan ei chyflogydd pan ddaw i weithio oriau gwaith hyblyg.

"Rwy'n lwcus fod gen i gyflogydd sy'n deall y sefyllfa ond mae gen i lawer o ffrindiau nad ydynt yn medru gweithio o gwbl oherwydd nad oes unrhyw hyblygrwydd yn eu patrymau gwaith," meddai.

Mae Esyllt yn disgwyl ei hail blentyn yn nes ymlaen eleni, ac yn ystyried yr atebion gorau i reoli ei hanghenion gofal plant yn y dyfodol.

Y mae dewis eang o opsiynau ar gael i gyflogwyr neu ddarparwyr hyfforddiant sy'n dymuno helpu y sawl a gyflogant gyda threfniadau gofal plant.

# Gofal Plant - Beth yw'r Opsiynau ar gyfer Cyflogwyr?



Mae costau, ansawdd gofal, a'r raddfa o reolaeth ansawdd oll yn ffactorau sydd angen eu hystyried cyn gwneud penderfyniad ar ba fath o ofal plant a fyddai'n orau gweddu i'r cyflogydd a'r sawl a gyflogir.

I gael gwybodaeth bellach a chyngor ar yr holl opsiynau gofal plant a restrir yn y cyhoeddiad hwn gweler y rhestr gyswllt ar dudalen 37.

## Gofal Plant Cyn-Ysgol

### Meithrinfa yn y Gweithle

I rai cyflogwyr, mae darparu meithrinfa ddydd ar y safle ar gyfer cyflogedigion yn un opswin i'w ystyried.

Mae hyn yn darparu gofal llawn neu ran amser ar gyfer plant o fabanod newydd anedig hyd at blant pum mlwydd oed o 8yb i 6yp ar ddyddiau'r wythnos, gan amlaf.

Gall cyflogydd ddymuno is-gontractio rheolaeth y feithrinfa i ddarparydd gofal plant arbenigol, gan roi cyfarwyddyd clir ar y rheolaeth, ansawdd, ffioedd a'r polisïau a ddisgwylir.

I wella effeithlonrwydd, cost a hyfywedd ariannol meithrinfa mewnol, medrent hefyd gynnig lleoedd i rieni eraill yn y gymuned lleol neu roi mynediad dan gontract i gyflogwyr eraill yn yr ardal.



Rhaid hefyd ystyried anghenion gofal plant ac oedolion ifanc anabl pan yn ateb anghenion gofal plant. I gael gwybodaeth bellach cysyllter ag Anabledd Cymru (gweler tudalen 38).

- Os yw'n rhwyddach i staff deithio i'r gwaith gyda'u plant

Gofal meithrinfa yn aml yw'r dewis cyntaf ymysg rhieni. Mae'n cynnig parhad gofal a gall fod yn gyfleus iawn i staff.

Mewn rhai achosion, gall sefydlu meithrinfa ei hunain ar y safle fod yn opswin gofal plant mwy costus, ond mae'n rhoi graddfa uchel o reolaeth i'r cyflogydd dros safonau gofal.

Yn gynyddol mae cyflogwyr yn dewis sefydlu eu meithrinfeydd eu hunain:

- Os oes galw uchel am leoedd ymysg cyflogedigion
- Os oes adeiladau ar gael yn rhwydd
- Os yw cyfleusterau gofal plant lleol yn annigonol

Gellir gwrthosod costau darparu meithrinfa mewnol yn erbyn atebolrwydd treth y cyflogydd (gweler tudalen 28).

### Meithrinfeydd Partneriaeth

I gyflogwyr sy'n amharod i wneud yr ymrwymiad i'w meithrinfa gweithle unigol eu hunain, gall menter partneriaeth gyda chyflogwyr cyfagos fod yn opswin arall.

Prif fantais yr opsiwn hwn yw y medrir rhannu costau a risgiau tra bod y cyflogydd yn dal i fod yn elwa o rannu rheolaeth dros ansawdd y gofal a ddarperir.

Gyda'r trefniant hwn fel arfer mae mwy o hyblygrwydd i gynyddu neu ostwng y nifer o leoedd.

Y partneriaethau mwyaf cyffredin yw rhai rhwng sefydliadau preifat a chyhoeddus lle mae gan un partner brofiad ac arbenigedd presennol mewn gofal plant.

Gall meithrinfeydd partneriaeth gael eu rheoli gan gontractydd allanol neu gan y partneriaid eu hunain. Os yw cyflogwyr yn dewis rheoli meithrinfa yn uniongyrchol, byddant yn cadw rheolaeth lwyr dros staff a materion ansawdd.

Gall meithrinfa a reolir gan gontractydd fod yn fwy costus i'r cyflogydd, ond gellir sicrhau ansawdd gan broses gywir a reolir o fanyleb contract a thendro.

Dylai'r cyflogydd gael ei gynrychioli ar bwyllgor rheoli'r feithrinfa, neu fel arall gall cyflogedigion fod yn atebol am dreth ar y cymhorthdal a dderbyniant am eu gofal plant gan y cyflogydd.

### Meithrinfeydd cydweithredol

Mae'n bosibl i feithrinfeydd dydd gael eu sefydlu un ai fel menter gydweithredol gan weithwyr neu gan ddefnyddwyr. Mae menter gydweithredol gan weithwyr yn fusnes sy'n cael ei berchenogi ar y cyd a'i redeg gan y bobl sy'n gweithio ynddo. Mewn menter gydweithredol defnyddwyr, y rhieni yw'r cyflogwyr a hwy sy'n recriwtio'r staff i edrych ar ôl eu plant eu hunain.

### Darpariaethau Gofal Plant Amgen

Gall fod yn ddrud i sefydlu meithrinfa ddydd ac efallai nad hwn yw'r dewis gorau ar gyfer cyflogwyr bach neu'r staff. Y mae fodd bynnag ffyrdd eraill o gefnogi pobl sydd eisiau cyfuno cyflogaeth neu hyfforddiant gyda magu plant.

### Lleoedd Contract mewn Meithrinfa

Yn hytrach na sefydlu eu meithrinfa eu hunain, gall cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant gael contract gyda meithrinfa leol i brynu nifer penodol o leoedd ar gyfer cyfnod a gytunwyd.

Yn yr achos hwn gall cyflogydd gynyddu neu ostwng y nifer o leoedd yn ôl y galw. Mae'r opsiwn hwn yn syml ei drefnu, ac yn aml yn llai costus i gyflogwyr.

Fodd bynnag mae gan y cyflogydd lai o reolaeth dros ansawdd y gofal plant ac nid oes rhyddhad ar dreth i'r cyflogydd na'r sawl a gyflogir.



### Noddi Rhwydweithiau Gofalwyr Plant

Gan amlaf y mae rhieni yn dewis gofalwyr plant, a chaiff ei ystyried gan fwyaf fel y dull mwyaf hyblyg o ofal plant sydd ar gael.

Lle nad yw'n ymarferol i ddarparu dulliau eraill o gefnogaeth gofal plant, gall cyflogwyr ddewis noddi Rhwydwaith Gofalwyr Plant. Gall 'Childminding in Business', adran o'r Gymdeithas Genedlaethol Gofalwyr Plant, ddatblygu rhwydweithiau o'r fath drwy godi ffi ar y cyflogydd i gefnogi cydlynydd sy'n recriwtio, ymweld a chefnogi gofalwyr plant lleol, gan sicrhau gwasanaeth ansawdd uchel.

## Gofal Plant - Beth yw'r Opsiynau ar gyfer Cyflogwyr?





## Datrysiad gofal plant i'r gymuned gyfan



*Alison Lavelle a'i mab Adam ym Meithrinfa Britannia.*

**Mae'r National Britannia Group, sy'n arbenigo mewn rheolaeth risg iechyd, diogelwch ac amgylcheddol yn cyflogi bron i ddau gant o bobl yn ei bencadlys rhyngwladol yng Nghaerffili.**

Pan symudodd y cwmni i swyddfeydd newydd gwerth £3 miliwn yn 1999 penderfynwyd buddsoddi mewn meithrinfa gyda'r cyfleusterau mwyaf diweddaraf er mwyn ei gwneud yn haws i staff ddychwelyd i'r gwaith ar ôl cael plant.

Drwy ddarparu rhai lleoedd ar gyfer plant rhieni nad oedd yn cael eu cyflogi ganddynt, medrodd y busnes hefyd lenwi bwlch yn y farchnad leol am ofal plant a sicrhau incwm ychwanegol i wneud y cyfleuster yn hyfyw.

Dywedodd Mandy Weston, Cyfarwyddydd y Feithrinfa: "Syniad ein cadeirydd oedd sefydlu'r feithrinfa. Teimlai y byddai'r cyfleusterau yn ased fawr i'r staff gan y byddai'n ei gwneud yn haws iddynt ddychwelyd i'r gwaith ar ôl seibiant mamolaeth.

"Gall fod yn ddrud iawn i benodi a hyfforddi pobl yn lle y rhai sy'n methu dychwelyd oherwydd diffyg gofal plant am bris rhesymol, felly mae'r cyfleuster hwn yn ein helpu i gadw ein staff gwerthfawr a medrus."

Mae'r feithrinfa, sydd â lle i 50 o blant, ar agor rhwng 8yb a 6yp pob dydd, sy'n cyfateb ag oriau gwaith National Brittania.

Mae'r feithrinfa yn derbyn cymhorthdal gan y cwmni, a gostiodd £30,000 i'w sefydlu yn Ionawr 2000. Mae'n costio £18,000 y mis i'w redeg ac mae ganddi 15 o staff.

Gall plant ddysgu a chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Un fam sy'n defnyddio'r feithrinfa yw Alison Lavelle, Rheolydd Gweinyddiaeth Grŵp, sydd â thri o blant ac sydd wedi gweithio i National Britannia am ddeng mlynedd.

Dywedodd Alison, o Gaerffili: "Roedd y feithrinfa yn wych i fy merch Chloe cyn iddi ddechrau'r ysgol, ac mae Adam wedi bod yn mynd i'r feithrinfa ers iddo fod yn dri mis oed. Mae'r feithrinfa wedi fy ngalluogi i barhau gyda fy ngyrfa heb rai o'r pryderon sydd gan eraill heb gyfleusterau ar y safle."

### Lwfansau Gofal Plant

Mae rhai cyflogwyr yn dewis cyfrannu at gostau gofal plant eu cyflogedigion yn hytrach na darparu'r gofal plant eu hunain. Mae cyflogwyr bach yn arbennig yn teimlo bod hyn yn opsiwn mwy ymarferol oherwydd mai hwn yw'r symlaf i'w weinyddu.

Gellir rhoi cefnogaeth ariannol drwy'r system gyflogau bresennol a gellir amrywio lefel y cymhorthdal yn ôl lefelau cyflog aelodau unigol o staff.

Mae gan y staff y rhyddid i ddewis y math o ofal plant sydd fwyaf addas iddynt hwy, ond nid oes gan y cyflogydd unrhyw reolaeth dros safon y gofal plant a gynigir.

### Talebau Gofal Plant

Gall cyflogwyr hefyd roi cymhorthdal tuag at ofal plant sy'n galluogi cyflogedigion i wneud eu trefniadau annibynnol eu hunain.

Caiff y cynllun talebau ei weithredu gan y sefydliad 'Childcare Vouchers'. Bydd y cyflogydd yn talu tâl gwasanaeth iddynt am ddefnyddio'r cynllun.

Mae cyflogedigion yn dewis eu dull o ofal plant ac mae'r gofalydd yn llofnodi cytundeb gyda 'Childcare Vouchers' er mwyn eu derbyn ar y rhaglen.

Gellir defnyddio'r talebau i dalu'n llawn neu'n rhannol am bob math o ofal plant, gan gynnwys gofalwyr plant, meithrinfeydd a grwpiau chwarae. Mae talebau yn hollol ddi-dreth i gyflogwyr, ac maent wedi eu heithrio o Yswiriant Cenedlaethol ar gyfer y cyflogydd, yn ogystal a'r cyflogedig. Fodd bynnag bydd cyflogedigion yn talu treth ar y budd.

### Cynlluniau gwybodaeth, lleoli a chyfeirio

Gall canfod cyfleuster gofal plant sy'n rhoi'r amgylchedd cywir ar gyfer plentyn, yn y lle iawn ac am y gost iawn, ymddangos yn aml fel tasg amhosibl i rieni.

Serch hynny gall rhai cyflogwyr sy'n methu darparu cymhorthdal uniongyrchol ar gyfer gofal plant hwyluso gwaith eu cyflogedigion o chwilio am ofal addas drwy roi gwybodaeth werthfawr iddynt. Medrant gontractio'n uniongyrchol gydag asiantaethau arbenigol sy'n darparu gwasanaethau gwybodaeth, cyfeirio a lleoli i ddiwallu anghenion unigol staff gyda'r adnoddau gofal plant sydd ar gael yn yr ardal.

## Gofal Plant Oedran Ysgol

### Clybiau Gofal Plant

Mae clybiau gofal plant allan o'r ysgol yn darparu gofal a chwarae ar gyfer plant o oedran ysgol y tu allan i oriau ysgol. Gall hyn fod cyn yr ysgol, ar ôl yr ysgol neu yn ystod gwyliau'r ysgol.

# Gofal Plant - Beth yw'r Opsiynau ar gyfer Cyflogwyr?





## Meithrinfa wrth Fodd Rhieni a Phensiynwyr



*Meithrinfa Puddleducks – staff a phlant.*

**Mae Meithrinfa Puddle Ducks yn Ninbych y Pysgod yn dod â budd ychwanegol i bobl oedrannus yn ogystal ag ateb anghenion gofal plant rhieni lleol.**

Cafodd y feithrinfa dydd a'r cyfleuster allan o'r ysgol eu creu'n arbennig i gefnogi rhieni a oedd yn gweithio yng Nghartref Nyrsio Park House Court sydd â 70 gwely.

Mae preswylwyr y cartref ar eu mantais oherwydd bod cael canolfan gofal plant ansawdd uchel cyfagos wedi galluogi staff profiadol Park House, y maent bellach yn eu hadnabod, i barhau i weithio yno ar ôl cael eu plant.

Mae gan y feithrinfa, sydd yn derbyn plant rhwng chwe wythnos a saith oed, le ar gyfer 26 o blant, yn cynnwys 12 lle dan ddwyflwydd a 14 lle dros ddwyflwydd oed.

Dywedodd Christine Caine, rheolydd y feithrinfa: "Roedd nifer o'r staff yn feichiog ryw bedair blynedd yn ôl a daeth yn amlwg ein bod mewn perygl o golli staff gwerthfawr pe na byddem yn medru cynnig cyfleusterau gofal plant".

Cysylltodd Park House Court â Chwarae Teg a'u helpodd i sefydlu'r feithrinfa mewn asgell o gyn adeilad gwesty, a arferai unwaith fod yn ganolfan cynhadledd.

Meddai Christine: "Bu'r feithrinfa ddydd a'r créche yn hwb mawr. Mae'n helpu i gadw staff a hefyd yn gweithredu fel magned ar gyfer recriwtio staff newydd talentog".

Mae'r cyfleuster ar agor rhwng 7.45yb a 7.45yp bob dydd, ac mae hefyd yn darparu ar gyfer rhieni yn y gymuned ehangach.

Meddai Christine: "Mae natur y gwaith a wnawn gyda nifer o bobl oedrannus y gofalwn amdanynt yn golygu fod staff yn gorfod bod ar gael bob diwrnod o'r wythnos. Ar ddyddiau arbennig, megis y Pasg ac adeg y Nadolig, mae'r plant yn ymweld â'r bobl oedrannus yn Park House Court, gan ganu caneuon a siarad gyda hwy sy'n hyfryd i'r plant a hefyd i'r trigolion oedrannus."

# Gofal Plant - Beth yw'r Opsiynau ar gyfer Cyflogwyr?



Mae'n well gan rai cyflogwyr a chyrff hyfforddi gefnogi gofal allan o'r ysgol o fewn eu hardal yn hytrach na chreu eu darpariaethau eu hunain.

Mae cynlluniau o'r fath yn llawer rhatach i'w sefydlu a'u rhedeg na meithrinfeydd dydd. Gall cyflogwyr brynu lleoedd unigol yn y clybiau neu roi grantiau tuag at gostau rhedeg cynlluniau lleol.

Gellir datblygu clybiau mewn sawl ffordd i ateb anghenion cyflogedigion a'u plant gan gynnwys gofal ar gyfer plant dan oedran ysgol, oedran ysgol gynradd a phlant yn eu harddegau.

Mewn ardaloedd gwledig yn bennaf caiff y clybiau hyn eu rhedeg, mewn adeiladau y tu allan i'r ysgol. Caiff cludiant ei ddarparu fel arfer yno ac o'r ysgol.

**Clybiau cyn ysgol**
Gellir gadael plant yn y clwb awr cyn i'r ysgol ddechrau a byddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dan arolygaeth nes y cânt eu hebrwng i'r ysgol.

**Clybiau ar ôl ysgol**
Caiff plant eu casglu o'r ysgol a'u hebrwng i'r clwb lle cymerant ran mewn gweithgareddau nes y gall eu rheini eu casglu. Mae clybiau ar ôl ysgol ar agor fel arfer hyd 5.30yb neu 6yp i ganiatáu i rieni sy'n gweithio'n llawn-amser ddefnyddio'r cyfleusterau.

**Gofal Plant Gwyliau**
Mae'r rhain yn gweithredu yn ystod gwyliau'r ysgol a chânt fel arfer eu rhedeg rhwng 8yb hyd 6yp bob dydd, gan ddarparu amrediad tebyg o weithgareddau i glybiau allan o'r ysgol. Dylai rhieni holi eu Awdurdod Lleol am ddarpariaeth cynlluniau chwarae yn eu ardal lleol.

**Gofal plant 'amlapio'**
Gofal plant 'amlapio' yw gofal dydd a gynigir fel estyniad o fan addysg plentyn lle mae rhieni neu gyflogydd yn talu am yr oriau ychwanegol o ofal a dderbyniwyd.

**Gofalwyr Plant**
Mae gofalwyr plant yn cynnig gwasanaeth hyblyg ar gyfer gofalu am blant ar ôl ysgol yn ogystal yn ystod y gwyliau. Mae plant yn aros gyda'r gofalydd nes bod rhiant yn dod i'w casglu a gellir addasu'r oriau i ateb anghenion neilltuol y rhieni. Fel yn achos plant dan oedran ysgol, gall cyflogwyr gyllido rhwydweithiau Gofalwyr Plant i sicrhau y cedwir safon uchel o ofal.





## Gofal ar Garreg y Drws



*Amanda Crocker a'i mab Rhys.*

**Mae Amandra Crocker, 31 oed, wedi gweithio i Awdurdod Iechyd Gwent ar Stad Parc Mamhilad am 13 mlynedd a dychwelodd yn ddiweddar o seibiant mamolaeth ar ôl rhoi genedigaeth Rhys, ei phlentyn cyntaf.**

Mae Amanda, sy'n byw yn New Inn, Pontypwl, yn gweithio tridiau yr wythnos. Mae'n gadael Rhys yn meithrinfa Little Stars ar y stad am naw o'r gloch bob bore cyn mynd at ei desg.

"Mae'r ffaith bod cyfleuster ar y safle wedi ei gwneud yn llawer rhwyddach i ddychwelyd i'r gwaith. Nid yn unig rwy'n medru gadael Rhys yn y feithrinfa cyn mynd i'r swyddfa, ond rwyf hefyd yn gwybod y medrwn fod yno o fewn munudau pe byddai yn wael.

"Mae'n arbed o leiaf awr bob dydd byddwn fel arall yn ei dreulio yn mynd â Rhys i feithrinfa yn y dref. Rwy'n gwybod fod mamau eraill sy'n gweithio ar y parc sydd yr un mor falch i gael hyn ar garreg eu drws".

Gyda'i mab naw mis oed bellach wedi arfer yn Little Stars, mae Amanda yn teimlo bod talu am ofal plant yn fforddiadwy iddi gan ei bod yn derbyn 10% o ddisgownt staff.
"Tra bo Rhys yn y feithrinfa rwy'n medru mynd i weithio'n ddiogel o wybod ei fod yn hapus ac yn cael gofal da. Rwy'n sicr y byddai mwy o feithrinfeydd fel hyn yn ei gwneud yn haws i famau fel fi fynd yn ôl i'r gwaith".

Ar ôl penderfynu sefydlu meithrinfa ddydd, rhaid i gyflogwyr neu ddarparwyr hyfforddiant gael ymrwymiad cadarn i gyflenwi gofal plant ansawdd uchel a pharatoi cynllun clir o'r hyn y dymunant ei gyflawni a'r amser ac adnoddau sydd ganddynt.



# Sefydlu Cyfleuster Gofal Plant

Y mae yna wahanol ystyriaethau ar gyfer gwahanol fathau o feithrinfeydd, sy'n adlewyrchu'r arddulliau rheolaeth, anghenion cyflogedigion a'r gosodiad lleol.

Serch hynny mae rhai materion allweddol sy'n weithredol yn y rhan fwyaf o amgylchiadau. Fe'u hamlinellir yma.

**(1) Deddf Plant 1989**
Daeth y Ddeddf hon i rym yn 1991 ac mae'n ddiwygiad sylweddol ar yr holl ddeddfwriaeth flaenorol sy'n gysylltiedig ag amddiffyn, gofal a magu plant. Mae'r Ddeddf yn galluogi swyddogion cofrestru awdurdodau lleol i sicrhau isafswm safonau derbyniol mewn gwasanaethau gofal dydd preifat a gwirfoddol a, thrwy ddyletswydd arolygu, gellir cynnal y safonau hynny.



Rhaid i'r holl wasanaethau ar gyfer plant a'u teuluoedd roi ystyriaeth i brif ddarpariaeth

*Lles y plentyn sydd bennaf a dylid ei hyrwyddo a'i ddiogelu..*

Dylai pob plentyn gael ei werthfawrogi fel unigolyn sydd a gwahanol anghenion, galluoedd a photensial mewn amgylchedd y mae ef neu hi'n teimlo'n gysurus, diogel a hyderus ynddi.

*Partneriaeth rhwng adrannau awdurdod lleol, y sector gwirfoddol a'r sector preifat.*

I feithrinfa partneriaeth weithio'n effeithlon, rhaid fod cyd-ddealltwriaeth a pharch, dialog parhaol a rhaniad o arbenigedd a gwybodaeth rhwng y partneriaid.

*Rhaid i wasanaethau ar gyfer plant lle gofelir amdanynt o gartref fod o safon uchel.*

Rhaid i ddarparwyr gofal dydd ddarparu amgylchedd iach, gofalgar a dychmygus lle gall plant ddatblygu'n gorfforol, emosiynol, deallusol, moesol a chymdeithasol.

*Cyfle cyfartal*
Mae plant ifanc mewn gofal dydd angen amgylchedd lle cânt eu gwerthfawrogi fel unigolion gan roi ystyriaeth i'w hil, iaith, diwylliant, crefydd, rhyw neu anabledd.

Mae'n bwysig fod holl ddarparwyr gofal dydd yn ymrwymedig i gyfle cyfartal ac yn cymryd camau cadarnhaol i atal pob gwahaniaethu ym mhob agwedd o'u gwaith. Dylid llunio polisi cyfle cyfartal ysgrifenedig.

**(2) Cofrestru Meithrinfa Ddydd**
Mae Deddf Plant 1989 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol, lle gofelir am blant dan wyth oed, gofrestru gofal dydd sy'n gweithredu am fwy na dwy awr y dydd neu am fwy na chwe diwrnod yr wythnos.

Wrth asesu addasrwydd unigolion i ddarparu gofal dydd bydd yr awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth i:
- Cofnodion troseddol
- Cofnodion iechyd
- Ymgyfraniad hysbys gyda gwasanaethau cymdeithasol
- Cymwysterau
- Hyfforddiant a phrofiad
- Deallusrwydd o ddatblygiad plant

Dim ond ar ôl penodi staff y rhoddir y cofrestriad terfynol a dylai'r dystysgrif cofrestru gael ei arddangos yn y feithrinfa.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff isafswm safonau eu cynnal drwy arolygiad blynyddol. Mae gan yr awdurdod y grym i ddileu cofrestru os yw'n credu fod y gofal dydd yn ddifrifol annigonol i anghenion y plant dan sylw.

(i) Ceisiadau ar gyfer Cofrestru
Dylid gwneud ceisiadau i'r adran gwasanaethau cymdeithasol fydd efallai gyda'u canllawiau eu hunain ar gyfer sefydlu darpariaethau gofal plant. Rhaid i gais am gofrestru gynnwys manylion am yr adeiladau i'w cofrestru, gwybodaeth am y perchennog ac unrhyw aelodau staff.

(ii) Staffio
Mae union gymhareb staff i blant yn amrywio yn ôl pob awdurdod lleol, ond mae cyfarwyddyd y Ddeddf Plant yn argymell:
0 – 2 oed 1 aelod o staff ar gyfer pob tri o blant
2 – 3 oed 1 aelod o staff ar gyfer pob pedwar o blant
3 – 5 oed 1 aelod o staff ar gyfer pob wyth o blant

Dylai rheolyddion fod yn ychwanegol at y gymhareb staff/plant mewn meithrinfeydd sydd â lleoedd ar gyfer dros 20 o blant.

(3) Cymwysterau a Phrofiad
Bydd ansawdd y gofal a ddarperir gan feithrinfa yn dibynnu ar gymwysterau a phrofiad staff. Mae nifer o gymwysterau ar gyfer y rhai sy'n dymuno gweithio yn y maes gofal plant gan cynnwys:

- Statws Athro Cymwysedig
- Diploma CACHE ('Council for Awards in Children's Care and Education') mewn Gofal Plant ac Addysg (NNEB yn flaenorol),
- Cymhwyster Mudiad Ysgolion Meithrin
- NVQ Lefelau 2-4 mewn Gofal ac Addysg Blynyddoedd Cynnar

Dylai cyflogwyr roi ystyriaeth i gymwysterau a phrofiad yn gysylltiedig â gofynion penodol y



swydd neilltuol. Dylai gofalwyr plant gyda chyfrifoldeb unigol am blant fod un ai â NVQ Lefel 3 neu Diploma CACHE i ofalwyr plant sy'n gweithio dan arolygaeth, dim ond NVQ Lefel 2.

Gall cynorthwywyr meithrin gael eu cyflogi o fewn canolfannau gofal plant heb unrhyw gymwysterau ffurfiol ond dylent gael eu hannog i gwblhau NVQ Lefel 2 mewn Blynyddoedd Cynnar ac Addysg ar ôl eu penodi.

(i) Hyfforddiant
Os yw staff a gofalwyr plant i gadw eu cymhelliant ac ymatebolrwydd i newidiadau y maent angen cyfleoedd sydd wedi eu cynllunio ar gyfer twf proffesiynol a chynydd mewn cyfrifoldeb.





## Mam a Rheolydd llawn-amser



*Rebecca Satherley yn treulio amser gyda'i phlant Alice a Gemma.*

**Mae gan Rebecca Satherley, sy'n 31 oed ac yn rheolydd meithrinfa Acorns yng Nghaerdydd, y fraint brin o fedru gweithio'n llawn amser yn ogystal â threulio pob dydd gyda'i phlant.**

Fel mam sengl, roedd y dewis o roi'r gorau i'w gwaith i edrych ar ôl Alice sy'n bump oed a Gemma sy'n bedair oed yn anymarferol i Rebecca.

"Yn ariannol nid oedd yn bosibl i mi roi'r gorau i fy swydd lawn amser ac fel rheolydd meithrinfa roedd yn gwneud synnwyr i'r plant gael gofal yn y feithrinfa lle rwy'n gweithio," esboniodd Rebecca, sy'n gweithio yn Llanilltud Fawr.

"Dechreuais fy ngyrfa fel nyrs feithrin dros 13 mlynedd yn ôl, a heb fanteisio'n llawn ar gyfleusterau gofal llawn amser fyddwn i byth wedi medru gweithio fy ffordd i fyny i fy swydd rheoli bresennol."

Gan fynd yn ôl i'r gwaith yn syth ar ôl geni ei phlant, mae Rebecca yn bendant fod ei phlant wedi datblygu eu sgiliau cymdeithasol a'u hunan-hyder yn gyflym iawn drwy gymysgu yn ddyddiol gyda phlant eraill.

"Fel rheolydd meithrinfa a mam rwy'n gwybod yn iawn am bwysigrwydd canfod y math iawn o ofal plant. Mae'n ei gwneud yn llawer haws i rieni ddychwelyd i weithio os gwyddant fod eu plant yn hapus ac yn cael gofal o safon uchel," meddai.

Gyda'i phlant yn agosau at oedran ysgol, bydd Rebecca yn defnyddio'r cynllun chwarae haf a gaiff ei redeg gan Acorns i edrych ar ôl y plant pan fydd yn y gwaith.

"Mae gan Acorns sawl meithrinfa yn Ne Cymru a Bryste, y rhan fwyaf ohonynt yn rhoi gofal ar y safle ar gyfer sefydliadau mawr. O'r adborth a gefais gan rieni, mae'r cyfleusterau ar y safle hyn o fudd pendant i'r cyflogydd a'r sawl a gyflogir," meddai Rebecca.

"Mae'n gyfleus i rieni adael eu plant yn y feithrinfa yn union cyn dechrau gwaith a medru ymweld â hwy yn ystod y dydd. Mae cyflogwyr yn manteisio ar lai o absenoldeb a medru cadw staff."

Yn ogystal cynyddu cyfleoedd ar gyfer gweithwyr gofal plant i gael cymwysterau lefel uwch yn hanfodol i hybu proffil y proffesiwn yn gyffredinol. Mae hyn yn ei dro yn gwneud gofal plant yn yrfa mwy deniadol ar gyfer dynion a menywod.

Mae nifer o gymwysterau ar gael i staff gofal plant hyd bob cam o'u gyrfaoedd. Ceir gwybodaeth ar yr holl gyrsiau sydd ar gael drwy gysylltu â rhif llinell gymorth Learn Direct ar 0800 100 900.

### (4) Adeiladau

Dylai adeiladau a ddefnyddir ar gyfer cyfleusterau meithrinfa fod yn addas i blant a rhieni gydag anableddau, ac mae ardal chwarae awyr agored gyfagos yn hanfodol. Mae cyfarwyddyd y Ddeddf Plant yn argymell y safonau gofod dilynol:

0 – 2 oed 3.7 medr sgwâr
2 – 3 oed 2.8 medr sgwâr
3 – 5 oed 2.3 medr sgwâr

Os gofelir am fabanod, byddant angen ystafell ar wahân ar gyfer cysgu a chwarae tawel.

### (i) Caniatâd cynllunio

Bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd tir neu adeiladau ac fel arfer caiff ei drafod gan adran gynllunio'r cyngor lleol. Mae'r ffactorau y rhoddir ystyriaeth iddynt yn cynnwys parcio diogel, hygyrchedd a niwsans swn posibl i gymdogion.

Bydd Swyddog  Cynllunio yn ymgynghori gyda Gwasanaethau Cymdeithasol ac adrannau perthnasol eraill yn ystod y broses gais. Fel arfer codir ffi cyflwyno cynllunio a gall yr holl broses gymryd hyd at chwe mis i'w gwblhau. .

# Sefydlu Cyfleuster Gofal Plant



### (5) Yswiriant

Rhaid trefnu yswiriant i ddarparu gwarant ar gyfer oedolion a phlant rhag ofn damwain, ac i ddiogelu yr holl eiddo ac offer.

Rhaid i feithrinfa gael yswiriant atebolrwydd cyflogydd yn ogystal ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, damwain bersonol, offer a chynnwys.

### (6) Iechyd a Diogelwch

Mae darparu amgylchedd iach a diogel yn hanfodol. Rhaid i'r feithrinfa gael set ysgrifenedig o reolau iechyd a diogelwch a dylai Swyddog Iechyd yr Amgylchedd wirio'r trefniadau cyn yr agorir y feithrinfa.





## Meithrinfa yn rhoi hwb i barc busnes



*Meithrinfa Little Stars Pontypwl – cynnig gofal plant am bris rhesymol.*

**Rhoddodd meithrinfa breifat Little Stars ar Stad Parc Mamhilad ym Mhontypwl hwb i'r economi lleol pan agorodd yn 2003 gan alluogi llawer o rieni yn yr ardal i ddychwelyd i'r gwaith.**

Mae gan y feithrinfa le ar gyfer 35 o blant rhwng chwe wythnos a phump mlwydd oed a chaiff y cyfleuster ei rannu rhwng gwahanol gyflogwyr ar y parc busnes lle mae mil o bobl yn gweithio, â rhieni eraill yn y gymuned.

Roedd Johnsey Estates o Gasnewydd, perchnogion y parc, mor bendant y byddai'r feithrinfa yn eu helpu i ddenu busnesau newydd i'r stad fel eu bod yn barod i rhoi defnydd un o'r unedau yn ddi-rent am y flwyddyn i Emma Pryer a Marie Ellis-Jones, perchnogion Little Stars.

Dywedodd Wendy Nutman, cyfarwyddydd Johnsey Estates: "Mae cael meithrinfa ar y parc yn gyfleuster gwych i staff. Mae'r lleoliad yn berffaith oherwydd mae'n golygu y gallant adael eu plant yno cyn mynd i'r gwaith a dal i fod yn ddigon agos i'w gweld yn ystod y dydd."

Er mai gweithwyr swyddfa yw'r rhan fwyaf o'r staff, llawer ohonynt yn fenywod, nid oedd y parc busnes erioed o'r blaen wedi bod â chyfleusterau gofal plant ar y safle. Ychwanegodd Wendy: "Mae gennym sawl cyflogydd mawr ar y parc yn cynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Heddlu Gwent a'r Gwasanaeth Prawf, a menywod yw llawer o'r staff.

Roedd yn gwneud synnwyr i ni gael meithrinfa yma fel y byddai menywod yn ei chael yn haws i ddychwelyd i'r gwaith."

Mae gan staff sy'n gweithio ar y parc hawl i ddisgownt o 10% ar leoedd yn y feithrinfa.

Cafodd y cyfleuster newydd ei ddatblygu ar yr un pryd â chynlluniau ychwanegol i wneud y parc yn fwy deniadol i gyflogwyr presennol a darpar gyflogwyr, yn cynnwys agor bwyty yn agos at y feithrinfa.



(7) Cefnogaeth Grant a Chyllid

Bydd gan bob meithrinfa dydd ei hamcanion a'i hamgylchiadau lleol ei hunain sy'n cyfuno i'w gwneud yn gynllun unigryw. Caiff meithrinfeydd preifat eu rhedeg fel busnesau i wneud arian, tra caiff darpariaethau cymunedol a chynlluniau gweithle eu rhedeg ar sail dim-elw. Felly bydd sylfaen ariannol meithrinfeydd dydd yn amrywio'n sylweddol wrth roi ystyriaeth i'r materion hyn.

Mae llawer o asiantaethau yn bodoli i roi cyngor a gwybodaeth i fentrau newydd, yn cynnwys cyfarwyddyd ar ffynonellau grantiau a benthyciadau. Gall Asiantaethau Menter Lleol roi llawer o wybodaeth ddefnyddiol, yn cynnwys manylion ar gyrff ymgynghorol eraill.

# Sefydlu Cyfleuster Gofal Plant

Gall adrannau datblygu economaidd awdurdodau lleol a siambrau masnach lleol hefyd roi cyngor a gwybodaeth. Medrant gynghori ar grantiau sector cyhoeddus, benthyciadau, ynghyd â dulliau eraill o gefnogaeth sydd ar gael drwy gyllid Ewropeaidd.

(8) Gostyngiad treth

Gall cyflogwyr sy'n darparu neu'n rhoi cymhorthdal tuag at ofal plant hawlio gostyngiad treth os ydynt:

- yn rhoi lwfans arian i'w staff ar gyfer gofal plant
- yn talu ffioedd meithrinfa neu ofalydd plant ar ran yr aelod o staff
- â chostau rhedeg meithrinfa gweithle neu gynllun chwarae ar gyfer plant y staff

Mae gan y cyflogydd hawl i lwfans cyfalaf ar gost dodrefn ac offer ar gyfer y feithrinfa yn ogystal â chost darparu'r gofal plant.

I gael gwybodaeth bellach gweler y cyhoeddiad 'Treth a Gofal Plant – Canllawiau i Gyflogwyr' a gyhoeddwyd gan Chwarae Teg.

(i) Rhyddid rhag Treth i Gyflogedigion

Nid yw'n ofynnol i aelodau staff dalu treth ar ddefnyddio budd meithrinfa neu gynllun chwarae ar y safle.

Fodd bynnag mae'r holl ddarpariaeth gofal plant arall yn drethadwy ar gyfer cyflogedigion sy'n ennill dros £8,500 y flwyddyn.

Gall rhai teuluoedd fod yn gymwys am Gredyd Treth Teuluoedd sy'n Gweithio. Mae gwybodaeth ar gael o unrhyw swyddfa Cyllid y Wlad.





## Safbwynt Tad




*Charles Leek a'i fab Julian.*

**Bu Charles Leek, sy'n ddarlithydd mewn seicoleg ym Mhrifysgol Bangor, yn manteisio ar y cyfleusterau crèche ar y safle ar gyfer ei fab Julian am y chwe mlynedd ddiwethaf.**

Ar ôl symud i Sir Fôn gyda'i wraig Marie-Josephe pan oedd Julian dim ond chwe mis oed, roedd yn rhaid i'r pâr ganfod ffurf addas o ofal plant os oeddent ill dau i barhau gyda'u gyrfaoedd.

"Mae fy ngwraig yn ddarlithydd hefyd ac nid oedd yr um ohonym eisiau rhoi'r gorau i'n swyddi," esboniodd Charles. "Bu'r ffaith fod gan y Brifysgol feithrinfa ar y safle yn fonws gwych i ni gan ein bod yn aml yn gweithio oriau hir ac nid oes gennym deulu yn lleol i'n helpu gyda gofal plant."

Mae meithrinfa Gymraeg Tir na-nOg ar y campws ac yn agored i blant staff y brifysgol yn ogystal ag aelodau'r gymuned leol.

"Roedd Julian yn y feithrinfa yn llawn-amser nes ei fod yn ddigon hen i ddechrau'r ysgol," meddai Charles. "Yn ystod ei amser yno datblygodd sgiliau cymdeithasol da a dysgu deall Cymraeg yn rhugl sydd wedi bod o fantais mawr iddo gan ei fod bellach mewn ysgol Gymraeg".

Mae clwb ar ôl ysgol y Brifysgol yn casglu Julian o'r ysgol a gofalu amdano nes fod ei rieni yn gorffen eu gwaith am 6 o'r gloch.

Esboniodd Charles, "Mae fy ngwraig a finnau'n cymryd darlithoedd yn hwyr ar ôl i Julien orffen yn yr ysgol am 3 o'r gloch ac onibai am y clwb ar ôl ysgol byddai'n anodd iawn i ymdopi â'n swyddi yn ogystal â'n hymrwymiadau teulu.

"Mae Julian hefyd yn mynychu cynllun chwarae haf yn y Brifysgol yn ystod gwyliau'r ysgol, sy'n rhedeg rhwng 8yb a 6yp."

Wrth geisio bod yn dywysydd rhyngwladol o ymarfer da mewn gofal plant, gall Cymru edrych ar agweddau o ddarpariaeth ymysg cenhedloedd eraill yn yr yr Undeb Ewropeaidd.

# Anelu i fod ymysg y gorau yn Ewrop



Er enghraifft mae gan Ffrainc a Denmarc ddwy system wahanol ond effeithlon iawn o ofal plant a gyllidir gan y wladwriaeth. Yr hyn sydd ganddynt yn gyffredin yw fod y ddwy wlad yn canolbwyntio ar wneud y gwaith o fod yn rhiant mewn gwaith mor rhwydd ag sydd modd.

**Ffrainc**

Bwriad gofal plant dan oedran ysgol yn Ffrainc yn bennaf yw addysg gynnar, ac mae'n agored i bob plentyn beth bynnag yw eu statws economaidd gymdeithasol. Ystyrir fod costau gofal plant yn gyfrifoldeb cymdeithasol a chânt eu cyllido'n gyhoeddus.

Mae bron y cyfan o blant tair, pedair a phump oed yn Ffrainc yn cymryd rhan mewn 'ecoles maternelles' llawn-amser, di-dâl – mae'r cyfan yn rhan o'r un system genedlaethol gyda'r un cwricwlwm.

Gall plant dan dair oed fynychu meithrinfeydd a gyllidir gan y wladwriaeth ac mae'r llywodraeth hefyd yn cynnig yr hawl i gael tair blynedd o seibiant rhieni.

**Denmarc**

Yn annhebyg i Ffrainc, mae system gofal plant Denmarc yn cynnwys model 'dim ysgol' ac fe'i bwriedir i gynorthwyo rhieni sy'n gweithio, ac nid i addysgu plant.

Mae'n ofyniad cyfreithiol fod cyfleusterau gofal dydd ar gael i bob plentyn. Mae'r llywodraeth yn gyfrifol am gost cymhorthdal system gofal plant ansawdd uchel ar gyfer babanod a phlant o chwe mis hyd at saith mlwydd oed, yn ogystal â system helaeth o ofal plant ar ôl ysgol.



Ffactor hanfodol ym mholisi teulu Denmarc yw galluogi i rieni ddewis y math o ofal plant sy'n gweddu orau i'w hanghenion neilltuol. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol gall rhieni ddewis rhwng cyfleusterau dydd cyhoeddus neu dderbyn cymhorthdal ar gyfer gofal preifat neu ofalu am y plentyn eu hunain.

Mae gan 80 y cant o blant Denmarc rhwng chwe mis a naw mlwydd oed le mewn cyfleuster gofal dydd a gyllidir yn gyhoeddus. Mae rhieni yn talu 30% o'r gwariant yn y gyllideb a rhoddir disgownt i rieni gyda mwy na un plentyn mewn gofal dydd cyhoeddus. Gellir rhoi rhyddhad llawn neu rhannol rhag talu yn seiliedig ar angen ariannol, cymdeithasol neu ofal.

## Talebau'n Helpu Mamau i Godi drwy'r Rhengoedd



*Yr Arolygydd Nicky Carter a'i merch Charlotte.*

**Roedd Heddlu Gogledd Cymru angen ateb hyblyg i anghenion gofal plant llawer o wahanol fathau o staff, yn amrywio o heddlu lleol sy'n gweithio bob awr o'r dydd a nos i weinyddwyr swyddfa sy'n gweithio rhwng naw a phump.**

Yn y pen draw penderfynwyd mae'r ffordd orau ymlaen oedd cyhoeddi talebau gofal plant oedd yn gadael pobl yn rhydd i wneud y trefniadau oedd yn gweddu orau iddynt hwy.

Bu'r cynllun yn boblogaidd iawn gyda swyddogion ac aelodau eraill o'r staff ar draws y rhanbarth, gan ddod â bonws ychwanegol gwell rhagolygon gyrfa ar gyfer llawer o fenywod yn y gwesanaeth Heddlu.

Mae'r Heddlu, sy'n cyflogi 1,600 o swyddogion heddlu a 700 o staff eraill, yn gweithredu mewn ardal enfawr yn cynnwys Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Ynys Môn a Gwynedd.

Dywedodd Sue Davison, Cydlynydd Datblygu Staff Heddlu Gogledd Cymru, fod helpu staff i oresgyn yr hyn a gâi ei gydnabod fel rhwystr mewn dilyniant gyrfa yn rheswm allweddol dros gyflwyno'r cynllun.

Yn ôl Sue, sy'n gweinyddu cynllun talebau Gofal Plant Heddlu Gogledd Cymru: "Nid yw natur 24 awr y dydd ein gwaith yn cydweddu gyda'r darpariaeth gofal plant oedd ar gael.

"Gwasanaethau Datblygu Staff oedd yn gyfrifol am recriwtio, cadw a datblygu'r staff pryd y cyflwynwyd y cynllun a daeth yn glir nad oedd rhai o'r staff yn rhoi eu henwau ymlaen ar gyfer swyddi arbenigol.

"Fe wnaethom astudio'r hyn oedd yn rhwystro pobl rhag gwneud cais am y swyddi hyn a chanfod fod diffyg mynediad i ofal plant hyblyg am bris rhesymol yn uchel ar y rhestr.

"Roeddem angen system hyblyg oedd yn gweddu a anghenion yr holl staff a bu i ni benderfynu bod y system talebau yn un heb unrhyw risgiau ac felly roedd pawb ar eu hennill".

Cyflwynwyd system talebau Heddlu Gogledd Cymru fis Hydref 2001 ac mae'r Heddlu yn talu am y costau rhedeg dyddiol. Y mae ugain o staff yn defnyddio'r talebau ar hyn o bryd.



Mae'r system talebau gofal plant yn syml i'w weinyddu. Caiff yr anfonebau eu hanfon at y staff sy'n eu defnyddio i dalu eu darparydd gofal plant.

Caiff y cost ei dynnu o gyflogau staff yn ei ffynhonnell gan arbed 11 y cant o Yswiriant Cenedlaethol iddynt. Mae'r darparydd yn cael arian am y talebau drwy eu hanfon at Busy Bees, y cwmni sy'n cyhoeddi'r talebau.

Gellir defnyddio'r talebau i dalu am ddarpariaeth meithrinfa neu fathau eraill o ofal plant megis gofal cyn ac ar ôl ysgol, a chynlluniau chwarae gwyliau cofrestredig.

Roedd yr Arolygydd Gweithredol Nicky Carter ymysg y swyddogion cyntaf yn Heddlu Gogledd Cymru i fanteisio ar y cynllun talebau gofal plant pan y'i cyflwynwyd gyntaf.

Defnyddiodd Nicky, 36, o Rhuthun, sy'n gweithio fel rheolydd hyfforddiant Heddlu Gogledd Cymru, y talebau i dalu am ofal plant ar gyfer Charlotte, ei merch dair oed a fu'n mynychu'r feithrinfa ers iddi fod yn bedwar mis oed.

Dywedodd: "Mae'r system dalebau wedi gweithio'n dda iawn i mi a fy nheulu. Caiff y costau gofal plant eu tynnu yn y ffynhonnell. Oherwydd hyn, nid yw'n rhaid talu'r cyfraniad Yswiriant Cenedlaethol o 11% sydd yn swm eithaf sylweddol i'w arbed dros flwyddyn, gyda chostau gofal plant o £390 y mis.

"Mae'n system syml a hyblyg i'w defnyddio yn nhermau'r Heddlu, y darparydd gofal plant a'r aelod unigol o staff. Mae fy narparydd gofal plant, Meithrinfa Ddydd Rhuthun, a finnau'n hapus, felly mae'n sefyllfa lle mae pawb ar eu hennill."

Mae Nicky'n defnyddio'r talebau i dalu am ei hanghenion gofal plant drwy gydol y flwyddyn yn cynnwys y clwb gwyliau ar ôl ysgol a gaiff ei redeg hefyd gan y feithrinfa dydd yn Rhuthun lle mae ei merch yn mynychu.



## Ateb i Pob Oedran mewn Cwmni Dillad



*Meithrinfa yn rhoi gofal plant hanfodol ar gyfer staff y ffatri.*

**Pan agorodd y gwneuthurydd dillad plant Aykroyd and Sons ei ffatri newydd yn Y Bala yn 1999, roedd sefydlu darpariaeth meithrinfa yn hanfodol i ateb anghenion gofal plant ei staff, y rhan fwyaf ohonynt yn fenywod.**

Mae Meithrinfa Ddydd Aykroyd, sydd ar safle'r ffatri, yn gweithredu yn ystod oriau'r ffatri gan alluogi mamau a fyddai fel arall yn gorfod rhoi'r gorau i'w swyddi i ddychwelyd i'r gweithle.

Esboniodd Gareth Jones, Rheolydd Personél, "Mae gennym weithlu medrus yn y ffatri, a heb y cyfleusterau créche byddem yn colli llawer o'r merched yr ydym wedi eu hyfforddi hyd safon uchel.

Mae'r créche yn agored i blant dan oed ysgol, ac mae yno 26 o lefydd i'w cynnig i 180 o staff y cwmni yn ogystal ag aelodau eraill y gymuned.

Mae'r cwmni'n rhoi cymhorthdal tuag at gostau'r gofal er mwyn gwneud gofal plant yn fwy fforddiadwy i'w staff.

Yn gynharach eleni agorodd y cwmni ail gyfleuster ar gyfer plant oedran ysgol a gaiff ei redeg o ganolfan bwrpasol heb fod ar safle'r ffatri. "Roedd galw cynyddol am ofal cyn ac ar ôl ysgol yn ogystal â chlybiau gwyliau," meddai Gareth. "Gall y ganolfan newydd ddal hyd at 40 o blant ac mae'n rhoi gwasanaeth cludiant i fynd â phlant yno ac o'r ysgol."

Er y costau sefydlu a rhedeg sy'n gysylltiedig, mae'r cwmni yn hyderus fod y nifer uchel o staff a gedwir yn fwy na unioni'r gost dechreuol.

"Pe na fyddem yn darparu gofal plant ni fyddai gennym y staff gyda sgiliau i gynyddu ein cynhyrchiant. Mae'r ffaith nad yw'r staff yn gorfod poeni am ganfod gofal plant mewn man arall hefyd yn golygu ein bod yn ei chael yn rhwydd iawn i recriwtio staff newydd", meddai Gareth.





## Darparu ar gyfer Anabledd



*Amser chwarae ym meithrinfa Coleg Penybont.*

**Cafodd Meithrinfa Ddydd Coleg Penybont ei hadeiladu'n bwrpasol i ddiwallu anghenion pob plentyn, yn cynnwys rhai gydag anableddau.**

Mae gan y feithrinfa, sydd ar agor rhwng 7yb – 6yp Llun i Gwener, 52 ddiwrnod yr wythnos heblaw gwyliau statudol – le i gant o blant rhwng chwe wythnos a phum mlwydd oed.

Yn ychwanegol mae cynllun chwarae ar gael ar gyfer plant rhwng 4 a 13 oed yn ystod gwyliau'r ysgol.

Meddai Michelle Morgan-Moody, rheolydd y feithrinfa: "Dydyn ni ddim yn arbenigo mewn gofal plant gydag anableddau ond mae cynllun yr adeilad a hyfforddiant ein staff yn golygu y medrwn ymdopi gyda gofynion unigol pob plentyn.

"Mae'r feithrinfa ar un gwastad sy'n ei gwneud yn haws i blant gydag anableddau ac anghenion arbennig. Gwnaed y drysau yn ddigon llydan ar gyfer cadeiriau olwyn a chafodd yr holl feithrinfa ei chynllunio gan roi ystyriaeth i anghenion yr holl blant".

Gall y feithrinfa hefyd roi lleoliad i fyfyrwyr gydag anableddau o Goleg Penybont i roi profiad iddynt fel rhan werthfawr o'u cyrsiau.

Dywedodd Michelle: "Mae'r staff wedi eu hyfforddi'n llawn ym mhob agwedd o ofal plant ac mae ganddynt y sgiliau a'r profiad i fedru ymdopi gyda phlant gydag anghenion arbennig. Mae gennym awyrgylch groesawgar hyfryd yn y feithrinfa a chaiff yr holl blant y cyfle i wireddu eu llawn botensial."

Rhoddir cymhorthdal i fyfyrwyr Coleg Penybont i ddefnyddio'r cyfleusterau gofal plant ac mae Cronfa Mynediad ar gael ar gyfer myfyrwyr cymwys a all dalu hyd at 75 y cant o ffioedd y feithrinfa.

## Canolfan Ofal yn dod â fflach newydd i hen gymuned lofaol



*Meithrinfa yn rhoi hwb i'r gymuned.*

**Mae Canolfan Gofal Dydd y Drindod yn gweithredu yng nghalon cymuned lofaol ddifreintiedig Ynysowen yng nghymoedd De Cymru.**

Sefydlwyd y ganolfan yn ddiweddar gan Brosiect Ieuenctid a Chymuned Aberfan ac Ynysowen, ac mae'n cymryd plant rhwng chwe wythnos a phum mlwydd oed ac mae ar agor rhwng 7.30yb a 5.30yp bum diwrnod yr wythnos drwy gydol y flwyddyn.

Dywedodd Tony Brown, Rheolydd y Prosiect, fod y ganolfan wedi cael croeso cynnes yn yr ardal: "Mae'n gyfleuster gwych a rydym yn falch iawn o'r safon uchel iawn o wasanaeth gofal plant yr ydym yn ei ddarparu ar gyfer cymuned Ynysowen yn y ganolfan newydd sbon hon.

"Fe wnaethom ymgynghori'n eang cyn sefydlu'r ganolfan, yn cynnwys siarad gyda'r Arolygiaeth Safonau Gofal a Chwarae Teg, i sicrhau fod yr hyn a ddarparwn ar frig datblygiadau yn y maes.

"Caiff y cyfleuster ei ddefnyddio gan rieni a gofalwyr sydd eisiau dychwelyd i weithio neu efallai sydd eisiau mynd i weithio am y tro cyntaf, ond a gafodd eu rhwystro gan ddiffyg gofal plant lleol am bris rhesymol. Mae creu'r feithrinfa yn dilyn sefydlu clwb ieuenctid a chlwb ar ôl ysgol llwyddiannus gan y Prosiect.

"Gwasanaethwn y gymuned ym mhopeth a wnawn a chawn ein harwain gan yr anghenion a'r gofynion yn Ynysowen. Mae Canolfan Gofal Dydd y Drindod yn cyflawni angen hanfodol yn ein cymuned a chylch ehangach Merthyr Tudful, a gobeithiwn adeiladu ar ei lwyddiant dros y blynyddoedd i ddod."





**Y Comisiwn Elusennau**
2nd Floor
20 Kings Parade
Queens Dock
Liverpool
L3 4DQ
Ffôn: 0870 3330123

**Talebau Gofal Plant a Datrysiadau Gofal Plant**
Cysylltwch â'ch awdurdod lleol

**Plant yng Nghymru**
25 Plas Windsor
Caerdydd
CF10 3BZ
Ffôn: 029 2034 2434
Ffac: 029 2034 2534
E-bost: info@childreninwales.org.uk

**Ymddiriedolaeth Gofal Dydd**
21 St. George's Road
London
SE1 6ES
Ffôn: 02078 403350
Ffac: 02076 403355
E-bost: info@daycaretrust.org.uk

**Uned Plentyndod Cynnar**
National Children's Bureau
8 Wakley Street
London
EC1V 7QE
Ffôn: 020 7843 6000
Ffac: 020 7278 9512

**Comisiwn Cyfle Cyfartal**
Ty Windsor
Lôn Windsor
Caerdydd
CF10 3GE
Ffôn: 029 2034 3552
Ffac: 029 2064 1079
E-bost: wales@eoc.org.uk

**Clybiau Plant Cymru**
Ty'r Bont
Heol yr Orsaf
Llanisien
Caerdydd
CF14 5UW
Ffôn: 029 2074 1000
Ffac: 029 2074 1047

**Mudiad Ysgol Meithrin**
145 Albany Road
Y Rhath
Caerdydd
CF24 3NT
Ffôn: 029 2048 5510
Ffac: 029 2043 6801

**Cymdeithas Genedlaethol Gofalwyr Plant**
4 Cathedral Street
Caerdydd
CF11 9LJ
Ffôn: 029 2034 2336
Ffac: 029 2034 2337
E-bost: ncma.wales@ncma.org.uk

**Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-Ysgol (Cymru)**
Ty Ladywell
Y Drenewydd
Powys
SY16 1JB
Ffôn: 01686 624573
Ffac: 01686 610230
E-bost: info@walesppa.org

**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**
Ty Baltig
Sgwâr Mount Stuart
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF10 5FH
Ffôn: 029 2043 1700
Ffac: 029 2043 1701
E-bost: enquiries@wcva.org.uk

**Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Uned 4/5 Sharnwood Court
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Nantgarw
Caerdydd
CF15 7GZ
Ffôn: 01443 848450
Ffac: 01443 848472

**Canolfan Gwaith a Mwy**
Cysylltwch â'ch Canolfan Gwaith leol

**Partneriaethau Gofal Plant**
Cysylltwch â'ch Awdurdod Lleol

**Swyddfeydd Gwybodaeth Plant**
Cysylltwch â'ch Awdurdod Lleol i gael manylion

**Anabledd Cymru**
Llys Wernddu
Parc Busnes Caerffili
Heol y Fan
Caerffili
CF83 3ED
Ffôn: 029 2088 7325
E-bost: info@dwac.demon.co.uk

**Employers for Childcare**
Children Mean Business
9 Leopold Street
Sheffield
England
S1 2GY
Ffôn: 01142 494923
Ffac: 01142 496376
www.cmb.org.uk